Taflen weithgaredd 4 Dinasyddion Ewrop

Corff rhyngwladol ag iddo 25 o aelod-wladwriaethau yw'r UE. Mae'r Deyrnas Gyfunol yn un ohonynt, ac mae Cymru yn un o bedair cenedl y DG. Er ein bod ni oll yn ddamcaniaethol yn ddinasyddion Ewrop, mae rhai pobl yn teimlo mai Cymry neu Brydeinwyr ydynt yn unig, ac nad oes gan yr UE fawr ddim i'w wneud â hwy.

Mae'r daflen weithgaredd hon yn archwilio rhai o'r ffyrdd y gallai unigolion ymateb i'r UE ac ambell i her i ddemocratiaeth yn Ewrop.

A ddylai estroniaid bleidleisio?

Cyfnod Allweddol 4 ABCh, Agwedd Gymunedol – deall systemau democrataidd a llywodraethu

Os ydych yn ddinesydd UE sy'n byw yn un o wledydd eraill yr UE, cewch bleidleisio yn yr etholiadau Ewropeaidd; yn y DG cewch bleidleisio mewn etholiadau lleol hefyd. Ond beth yw'r sefyllfa os ydych yn byw yn yr UE heb fod yn ddinesydd UE?

Chewch chi ddim hawliau pleidleisio yn y gwledydd hyn:

Awstria	Cyprus	Ffrainc	Yr Almaen
Gwlad Groeg	Hwngari	Yr Eidal	Latfia
Gwlad Pwyl	Slofacia		

Bydd y gwledydd hyn yn rhoi hawliau pleidleisio i chi wedi cyfnod penodol:

Gwlad Belg	Denmarc	Estonia	Y Ffindir
Iwerddon	Lithwania	Lwcsembwrg	Yr Iseldiroedd
Slofenia	Sweden		

Mae'r gwledydd hyn yn rhoi hawliau pleidleisio os ydych yn perthyn i grŵp arbennig:

Y Weriniaeth	Tsiec	Malta	Portiwgal	Sbaen	DG

Mae yna lawer o estroniaid a symudodd i un o wledydd yr UE ddegawdau yn ôl, ond sydd yn dal i fethu â dylanwadu ar bolisïau trwy bleidleisio. Gan eu bod yn drigolion yn y gwledydd hynny, mae'r rhan fwyaf yn talu trethi ac yswiriant gwladol, ond mae rhai sydd yn methu â phleidleisio mewn etholiadau heb newid eu cenedligrwydd.

Gweithgaredd: Pleidleisio – pam?
Rhestrwch, tynnwch lun, neu greu ludwaith gan y dosbarth o'r holl wahanol feysydd mewn bywyd sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau'r llywodraeth, e.e. addysg, iechyd, yr amgylchedd, cludiant. Ydy'r meysydd hyn i gyd yn effeithio ar ddinasyddion yr EU ac ar estroniaid sy'n byw yn yr UE?

Pwyntiau i'w trafod:

- A yw hi'n iawn i ganiatáu i estroniaid bleidleisio mewn etholiadau lleol neu genedlaethol?
- A ddylai mewnfudwyr gael pleidleisio yn eu mamwlad ac yn eu gwlad newydd?
- A ddylai holl wledydd yr UE arddel yr un polisi ar bleidleisio?
- Pam, yn eich barn chi, nad yw rhai gwledydd yn caniatáu i fewnfudwyr o'r tu allan i'r UE i bleidleisio?
- Ym mha ffyrdd y gall pobl gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus ac arfer dinasyddiaeth, ar wahân i bleidleisio?

Gwir ddemocratiaeth?

- Er y gall dinasyddion yr UE bleidleisio yn yr **etholiadau i Senedd Ewrop,** cymharol isel yw'r diddordeb yn yr etholiadau hynny. Ar draws yr UE, syrthiodd y ganran o bobl sy'n pleidleisio o 63% yn yr etholiad Ewropeaidd cyntaf ym 1979, i 49.5% ym 1999. Yn y DG ym 2004, pleidleisiodd llai na 38%. Efallai nad yw pobl yn deall yr hyn mae Senedd Ewrop yn ei wneud, neu yn teimlo ei bod yn rhy bell oddi wrth y bobl mae'n eu cynrychioli.

- Elfen arall mewn democratiaeth yw **ymgynghori** – holi barn pobl ar fater cyn creu deddf amdano. Mae ymgynghori yn yr UE yn dueddol o ddigwydd ar lefel leol. Mae hi'n bosibl i gynnal pleidlais genedlaethol (**refferendwm**) ar fater arbennig o bwysig, ond mae hyn yn gymharol anarferol. Pwnc yr unig refferendwm a gynhaliwyd ar Ewrop ym Mhrydain oedd a ddylem aros yn y Gymuned Ewropeaidd – ac roedd hynny mor bell yn ôl â 1975.

- **A yw'r UE ei hun yn gweithio mewn modd democrataidd?** Gall Aelodau o Senedd Ewrop (ASEau) ddiwygio neu wrthod y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth yr UE. Gallant orfodi'r Comisiwn Ewropeaidd i ymddiswyddo, bwrw llinyn mesur dros Gomisiynwyr cyn iddynt gael eu penodi, a rheoli cyllideb yr UE. Fodd bynnag, gorwedd y **Comisiwn Ewropeaidd** dadleuol wrth graidd yr UE. Yn ôl rhai mae'n annemocrataidd – dyma'r unig gorff sy'n cael awgrymu deddfau newydd i'r UE, nid yw'n cynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus, ac nid yw ei aelodau yn cael eu hethol yn uniongyrchol ond yn cael eu hawgrymu gan lywodraethau'r gwahanol wledydd.

Gweithgaredd: O'r bobl at y rhai sy'n penderfynu…
Isod fe welwch ddiagram (yn Saesneg) sy'n cynrychioli sefydliadau'r UE, ac yn dangos pa rai a etholir gan ddinasyddion a pha rai gan lywodraethau. Bob yn bâr, cynlluniwch lun neu ddiagram gwahanol a fyddai'n dangos strwythur pŵer yn Ewrop yn ôl eich dealltwriaeth chi.

Pwyntiau i'w trafod:

- A yw dinasyddion yr UE yn chwarae digon o ran wrth gymryd penderfyniadau?
- A yw'r rhan fwyaf o bobl wir yn deall sut y mae'r UE yn gweithio?
- Pam, yn eich barn chi, mae'r niferoedd sy'n pleidleisio yn yr etholiadau Ewropeaidd yn disgyn?
- Pa sefydliad sydd fwyaf pwerus yn eich barn chi?
- A ddylid llunio deddfau'r UE mewn ffordd arall yn eich barn chi?



Cyfansoddiad i Ewrop?

AS Edexcel, *Government and Politics – The EU and European Issues*
Gweler y Cyflwyniad ar gyfer Athrawon am gysylltiadau cyffredinol â'r cwricwlwm

A yw hi'n syniad da i gael un ddogfen sy'n dod â holl ddinasyddion yr UE at ei gilydd?

- System o reolau ac egwyddorion a ddefnyddir i lywodraethu rhywbeth yw cyfansoddiad. Mae'n effeithio felly ar bob dinesydd sy'n byw o dan ei awdurdod.
- Yn 2004, llofnododd pob un o 25 aelod yr UE **Gytundeb Cyfansoddiadol** newydd. Er mwyn i'r Cyfansoddiad ddod yn gyfraith, rhaid i bob un o'r 25 hefyd ei gadarnhau. Mae 14 o aelod-wladwriaethau wedi gwneud hyn eisoes, ond gwrthododd dinasyddion Ffrainc a'r Iseldiroedd y Cyfansoddiad yn 2005. Mae gwledydd fel y DG bellach yn oedi rhag cadarnhau'r Cyfansoddiad, tra bo pawb yn ystyried dyfodol y Cyfansoddiad.
- Nod yr UE oedd cael un ddogfen i gymryd lle nifer o gytundebau digon dryslyd a oedd eisoes yn bodoli. Roedd rhai yn Ffrainc yn gwrthwynebu'r Cyfansoddiad am eu bod yn teimlo ei fod yn rhy ryddfrydol yn economaidd; credai eraill y byddai ei wrthod yn gorfodi ail-lunio'r cytundeb. Roedd eraill wedyn yn methu'n lân â deall y Cyfansoddiad (sydd, yn Saesneg, yn 482 tudalen o hyd), gan ddefnyddio eu pleidlais i brotestio yn erbyn record y llywodraeth ar faterion eraill, fel yr economi gartref.
- Mae'r digwyddiadau hyn yn dangos bod modd i ddinasyddion yr UE leisio eu barn ar lefel genedlaethol, a allai fod yn brawf o ddemocratiaeth Ewropeaidd ar waith. Ar y llaw arall, efallai bod y pleidleiswyr yn teimlo mai rhywbeth oedd yn digwydd yn bell i ffwrdd oedd datblygiad y Cyfansoddiad, ac heb ddeall dros beth y byddent yn pleidleisio.

Gweithgaredd:
Pe byddech yn llunio cyfansoddiad ar gyfer gwlad newydd, beth fyddech chi'n ei gynnwys? Fesul grwpiau, lluniwch gyfansoddiad 10-pwynt, o bosib gan ddefnyddio rhannau o gyfansoddiadau cenedlaethol i helpu i sbarduno syniadau (**www.constitution.org/cons/natlcons.htm**).

Pwyntiau i'w trafod:

- Pam bod cyfansoddiad ar ddu a gwyn yn beth defnyddiol?
- Yn eich barn chi, oes angen cyfansoddiad ar yr EU?
- Yn eich barn chi, a ddylid bod wedi ymgynghori â'r dinasyddion wrth lunio'r Cyfansoddiad?
- Beth yw eich barn chi am y gwledydd a lofnododd y Cyfansoddiad heb gynnal pleidlais genedlaethol yn gyntaf?

Ynglŷn â Citaware

Nod Citaware yw cynyddu ymwybyddiaeth o'n dinasyddiaeth Ewropeaidd yng Nghymru, gan alluogi pobl o bob oedran i ymwneud â sefydliadau'r UE. Fe'i noddir gan y Comisiwn Ewropeaidd a'i drefnu ar y cyd gan:

Welsh Centre for International Affairs
Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol (WCIA)
Fforwm cenedlaethol ar gyfer cyfnewid syniadau am faterion rhyngwladol
www.wcia.org.uk

CEWC CYMRU

Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd – Cymru
Adain ysgolion WCIA.
www.cewc-cymru.org.uk

EuropaWorld

EuropaWorld
Papur newydd ar-lein rhad ac am ddim sy'n trafod datblygu rhyngwladol o safbwynt Ewropeaidd.
www.europaworld.org